# Y Dinesydd

**Ebrill 2013 Rhif 376** Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch **Pris: 80 ceiniog**



# Pen-blwydd Hapus i'r Dinesydd!




'Dydw i da i fawr ddim fel aelod mewn Cwis Cyffredinol ond mae 'na un cwestiwn posibl y medrwn ei ateb yn syth fel mellten, sef: 'Pa bryd y sefydlwyd Papur Bro cynta' Cymru?'

Roedd sôn am wneud y fath beth mewn sawl man yng Nghymru. Dim mwy na hynny. Yng Nghaerdydd y trodd y ffansi yn ffaith. Yno, anelwyd yn wreiddiol (er yn ddigon diddychymyg) at Fawrth 1af, 1973, ond yr hyn sy ar ben tudalen flaen y Papur ydi 'Rhif. 1 Ebrill 1973'. Argoel amwys? Wel, clywais un neu ddau ddigrifwr yn rhyw led-awgrymu ei fod yn bennawd hawdd i'w gamddehongli: Papur Ffŵl-Ebrill'!

Nid felly y bu. Papur ydoedd a brofodd yn flaenffrwyth mudiad grymus yn hanes y Gymraeg. Y tro dwetha i mi gyfrif yn Nyddiadur Y Lolfa sawl Papur Bro sy'n dal i fod ar hyn o bryd y rhif a gefais oedd 57. Nid tân siafins.



# Y DINESYDD

RHIF. 1 EBRILL 1973

# Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

CANT OED

deffro mae'n ddydd

Fel y cofiaf y sefyllfa yng Nghaerdydd ar y pryd rhoed cychwyn ar bethau trwy anfon llythyrau at gydweithwyr imi yn y Cyfryngau; hynny ar ddechrau Mai 1972. Cychwynnwyd felly gan dybio y byddai diddordeb bywiog yn eu mysg, yn neilltuol o ystyried yr arbenigrwydd newyddiadurol oedd yn ferw'n y lle. Siomedig oedd yr ymateb ond roedd parodrwydd dyrnaid brwd i ystyried y mater yn ddigon i gyfiawnhau cysylltu ar unwaith wedyn â nifer o gynheiliaid gweithgaredd Cymraeg y brifddinas yn gyffredinol.

Erbyn mis Mehefin roedd cnewyllyn o'r Caerdyddiaid yn barod i symud ymlaen. Buom yn cyfarfod rai troeon yn ystod yr haf ac yna cymerwyd y cam paratoadol allweddol trwy benderfynu galw Cyfarfod Cyffredinol yn Neuadd Eglwys Dewi Sant ar Hydref 8fed. Bellach roedd gennym gynllun gweddol gyflawn ac enw golygydd arfaethedig, sef Norman Williams, i'w cyflwyno i'r gynulleidfa. Cofiaf y cyfarfod hwnnw fel un gwresog gydag ambell sinig digon onest i fynegi ei amheuon ynghylch yr holl syniad ond yn y diwedd y meddylfryd cadarnhaol a orfu a derbyniwyd y cynllun, gyda mân newidiadau. O hynny ymlaen roedd y ffordd yn agored.

Erbyn Chwefror 1af, 1973, roedd Pwyllgor Rheoli'r Papur yn cyfarfod ac yn hwnnw y bedyddiwyd o: Y DINESYDD.

*Parhad ar dudalen 2*

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Sian Parry-Jones**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Richard Lewis**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mai erbyn 27 Ebrill i:
5 Station Terrace, Llanbedr-y-fro,
Bro Morgannwg CF5 6LU
Ffôn: 07518 997717 / 01446 760 913
richardllanbedr@gmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


## Pen-blwydd Hapus *(Parhad o'r dudalen flaen)*



Gydag eithrio enwi Norman yn gynharach ni fentraf enwi'r merched a'r dynion a arloesodd gyda'r gwaith dygn o lunio a hybu'r Papur. Llenwai hynny rai paragraffau cyfan o ofod yr un presennol. Profiad mwy arswydus i mi a fyddai anghofio rhestru ambell un ohonyn nhw. Bodlonaf ar hyn. Bu twf y Papur yn enghraifft wiw o gydweithio cymunedol gwirfoddol (gyda chefnogaeth ragorol yn nes ymlaen gan Swyddogion rhai Cyrff Llywodraethol) a hynny yn wyneb anawsterau pur ddifrifol. Ni fu'r ffordd i'w cherdded yn y dyddiau cynnar yn un lydan.

Serch hynny ni laesodd dwylo'r arloeswyr a rhoesant o'u hegni, eu horiau a'u harian yn hael. Syndod i mi ar brydiau oedd eu gweld yn pydru arni gan wybod yn iawn, yng nghyfnod 'cael y papur am ddim' (na ellid ei osgoi ar y pryd) fod sawl un o'u cyfoedion Cymraeg yn ei dderbyn yn hapus ddigon heb feddwl unwaith am roi ambell buntan i mewn yn y Gronfa Gyffredinol! Wel, dyna fywyd.

Du oedd lliw'r Papur yn y saithdegau. Heddiw mae'n lliwgar, bywiog a graenus ar agoriad ei ddeugeinfed flwyddyn ac yn dal i adlewyrchu gweddau sylfaenol ar Gymreictod ei amgylchedd. Haedda ddathlu ei fodolaeth. Penblwydd bendithiol yr hen bererin.

***Merêd***

## Merched y Wawr Bro Radur

Yn ein cyfarfod ym mis Chwefror cawsom y pleser o groesawu nifer dda o ddysgwyr o dan arweiniad Helen Prosser, Cyfarwyddwraig Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Morgannwg. Cadeirydd a threfnydd y noson oedd Shirley Williams, Swyddog Datblygu'r De Ddwyrain.



*Helen Prosser, Shirley Williams ac Eirlys Eckley*

Yn rhan gyntaf y noson sef 'Sgwrs Sydyn,' rhoddwyd cyfle i'n gwesteion ymarfer eu Cymraeg mewn cyfres o sgyrsiau gyda sawl grŵp gwahanol ohonom. Cawsom oddeutu awr o sgwrsio diddan a diolch i'n gwesteion am eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad.

Yn ail ran y noson sef 'Fy hoff ...' cafwyd sgwrs fer gan dair o'n haelodau am 'drysor' oedd yn eu meddiant. 'Fy hoff lestri' oedd dewis Nia Jones, 'Fy hoff gân' oedd dewis Eirlys Eckley, tra dewisodd Carys Tudor Williams 'Fy hoff lun'. Drwy gyfrwng y sgyrsiau difyr a'r gân 'Tuag Adre' gan Eirlys, cawsom gipolwg ar arwyddocâd Crochenwaith Portmeirion i Nia, hafau plentyndod mentrus Eirlys ar draeth Porthdinllaen ac atgofion Carys am ffraethineb ei Nain o Sir y Fflint.

Roedd yn noson gwerth chweil ac i gloi'r cyfarfod cawsom baned a chacen!

Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT

# TOM EVANS

Tristwch mawr i gymuned eang oedd clywed am farwolaeth ein cyfaill Tom ar 7 Ionawr. Yr oedd Tom yn wreiddiol o Gilfynydd lle y dysgodd Gymraeg yn yr ysgol.

Bu'n brifathro ar dair ysgol gynradd yng Nghaerdydd, gan gyflawni gwaith arloesol. Llafur amhrisiadwy Tom yn Ysgol Bryntaf a osododd y sylfaen ar gyfer y twf a welwyd mewn addysg Gymraeg yn y brifddinas. Sefydlodd uned anghenion arbennig, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn Ysgol Coed-y-gof. Yn wir, mae llwyddiant addysg Gymraeg y brifddinas heddiw yn deyrnged i'r sylfaen gadarn a osodwyd ganddo.

Roedd Tom yn athro ac addysgwr penigamp; yn bennaeth a mentor o'r radd flaenaf. Mae cannoedd o blant wedi elwa o'i ddylanwad ac yn cofio, yn eglur, y gofal manwl a roesai i bob disgybl, gan eu harwain a'u cymell i roi o'u gorau. Bu'n graig ac yn ysbrydoliaeth i lawer o athrawon, hefyd, ac roedd wrth ei fodd ar gyrsiau iaith yn Llangrannog. Priodol iawn oedd canu'r Hwyrol Weddi yn ystod y gwasanaeth angladdol.

Roedd yn Gristion cryf, yn aelod ffyddlon ac yn ddiacon gweithgar yn Eglwys Ebeneser. Bu'n un o golofnau'r achos yno dros gyfnod hir.

Bu'n gefnogwr cyson a gweithgar i ddiwylliant a bywyd Cymreig y ddinas a'r Fro ac, yn haeddiannol, cafodd ei anrhydeddu am ei wasanaeth clodwiw gan Brifysgol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Gwladgarwr selog, gŵr hawddgar, siriol, ffraeth, hoffus a charedig, ffrind da i lawer, doeth a dibynadwy, ac un ag awdurdod yn perthyn iddo.

Brwydrodd yn ddewr a dirwgnach yn erbyn cystudd cynyddol, gan ddiolch yn gyson am y gofal arbennig a gafodd yn Uned Arennau Ysbyty'r Brifysgol.

Roedd Capel y Wenallt, y Ddraenen Wen, dan ei sang ar ddydd ei angladd, 19 Chwefror, a'r gwasanaeth yng ngofal ei Weinidog, Y Parchg Alun Tudur. Cydymdeimlwn gyda Freda, Catrin ac Eleri, a fu'n gefn arbennig i Tom, yn eu profedigaeth.

*Darn o hud yr hyn a aeth*
*Sy'n aros yn ein hiraeth.*

***J. E. Malcolm Thomas***

## *Cydymdeimlwn â*

theulu'r diweddar Phyllis Davies, cantores a gwraig i'r diweddar Huw Davies, o Lanisien, Caerdydd a fu farw yn 89 oed yn Ysbyty Llandochau ar 15 Mawrth ar ôl salwch byr. Bu'r angladd yn Amlosgfa Thornhill ar 3ydd Ebrill.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun, 18fed o Fawrth, daeth Dr Emyr Lloyd-Evans i siarad â ni am ei waith yn adran y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae e'n gweithio ar lysosomau, rhan o beirianwaith ailgylchu'r gell, a'r clefydau sy'n digwydd pan fo nam ar y lysosom. Mae'r grŵp yma o tua 50 o glefydau, gan fwyaf yn rhai niwrolegol, yn lled brin, ond efallai'r rhai mwyaf enwog yw clefyd Gaucher a chlefyd Niemann-Pick. Esboniodd Emyr sut roedd rhai o'r symptomau o'r clefydau yma yn debyg iawn i glefydau Parkinson a Alzheimers a sut gallai triniaethau i'r clefydau lysosom fod yn ffordd o ddatblygu ffyrdd o drin y clefydau eraill yma.

Soniodd hefyd am y posibilrwydd o ddatblygu triniaethau i'r diciâu sydd ddim yn dibynnu ar wrthfiotig - testun amserol iawn! Roedd diddordeb mawr gen i glywed am y gwaith a wnaed ar effeithiau llesol y cemegyn circumin sydd yn bresennol yn y sbeis twrmeric - cynhwysyn pwysig mewn llawer cyri. Felly mae'n swyddogol, gall cyri fod yn dda i chi!

***Rhys Morris***

# Dinesydd Digidol

Yn ein stondin yn Tafwyl ar 15 Mehefin bydd gan *Y Dinesydd* ddwy thema – y naill yn rhoi sylw i'r papur bro fel y mae heddiw, a'r llall yn agor y drws i weld beth sy'n bosib ei ddatblygu o ran papur bro digidol Cymraeg i wasanaethu Caerdydd a'r Fro.

Er bod y Dinesydd wedi newid tipyn yn ystod ei ddeugain mlynedd o fodolaeth, rydym yn awyddus i'w weld yn datblygu eto o ran diwyg a chynnwys, gan ehangu ei apêl a chynyddu'r nifer o ddarllenwyr. Yn Tafwyl bydd cyfle i bobol ddweud eu barn ar hyn i gyd.

Hefyd, byddwn yn casglu manylion am bob math o bethau sy'n berthnasol i brosiect y papur bro digidol, yn cynnwys enwau pobl sydd â diddordeb i fod yn rhan o'r datblygiad cyffrous hwn.

Os ydych yn fodlon rhoi awr neu ddwy i'n helpu ar y 15fed, a fyddech chi mor garedig â chysylltu â Bryan James ar 2056 6731 neu db.james@ntlworld.com? Cofiwch alw i mewn ta beth. Byddai'n braf eich gweld – a falle cewch chi syrpreis!

# Cywiriad

Dr Neville Evans oedd awdur yn erthygl parthed llyfr Ieuan Davies yn rhifyn mis Mawrth o'r Dinesydd.

## Tafwyl 2013 yn chwilio am wirfoddolwyr

Rydym yn edrych i recriwtio unigolion cyfeillgar a brwdfrydig dros 16 oed i wirfoddoli yn Tafwyl eleni. Bydd nifer o shifftiau a swyddi stiwardio amrywiol ar gael felly ewch i wefan Tafwyl neu cysylltwch gyda Sara Jones am fwy o fanylion – sarajones@mentercaerdydd.org / 029 2068 9888

Bydd mwy o wybodaeth am bwy fydd yn ymddangos eleni yn cael ei gyhoeddi dros y misoedd nesaf. Mae gwefan Tafwyl ar ei newydd wedd yn fyw erbyn hyn, felly ewch i www.tafwyl.org am y newyddion diweddaraf

## Cyrsiau Cadw'n Heini newydd i Oedolion

**Pilates**

Cwrs 10 wythnos
ar Nos Sul 5pm-6pm
Dechrau Nos Sul, Ebrill 21
Chapter – £45

**Bŵt Camp**

Cwrs 10 wythnos
ar Nos Fawrth 6.30pm – 7.30pm
Yn dechrau Nos Fawrth, Ebrill 16
Caeau Llandaf – £40

Mae'r cyrsiau'n addas i unigolion dros 16 oed. Catrin Ahmun yw'r hyfforddwr. Cofrestrwch ar y wefan – mentercaerdydd.org, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ffionrhisiart@mentercaerdydd.org / 2068 9888

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Ebrill 28 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch fod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis!

## Penwythnos Teulu i Wersyll yr Urdd, Llangrannog

Mwynhau hufen ia ar draeth Llangrannog er gwaetha'r tywydd oer yn ystod y penwythnos teulu ar ddechrau gwyliau'r Pasg! Daeth dros 50 o deuluoedd i fwynhau, cymryd rhan ar y gweithgareddau a chymdeithasu!

## Clybiau Plant Tymor yr Haf

Bydd y clybiau plant canlynol yn dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd yng Nghaerdydd

- Clwb Criced - NEWYDD
- Ysgol Ddrama Ffwrnais Awen
- Clwb Pêl-rwyd
- Clwb Gymnasteg Sblot
- Clwb Nofio'r Tyllgoed
- Clwb Dawnsio Stryd
- Clwb Athletau
- Clwb Rygbi
- Clwb Nofio'r Gorllewin
- Clwb Gymnasteg y Tyllgoed

Am fwy o wybodaeth am y clybiau gan gynnwys dyddiadau, lleoliadau a chostau, ac i gofrestru, ewch i'r wefan - mentercaerdydd.org neu cysylltwch gyda leanne@mentercaerdydd.org

## Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch bod gan y Fenter gyfrifon Twitter, Facebook ac You Tube, a rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd i glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Gwefan Y Dinesydd: www.dinesydd.com

# Colofn G.R.

Fel dwy'n sgrifennu hyn o eiriau mae copi o'r rhifyn cyntaf o bapur "Y Dinesydd" o'm blaen a ymddangosodd am y tro cyntaf yn Ebrill 1973 sy'n golygu bod y papur yn ddeugain oed y mis hwn. Penblwydd hapus yn wir i bapur bro hynaf Cymru a hir oes iddi. Yr anrheg ben-blwydd orau i ddathlu'r achlysur fyddai gweld cylchrediad y papur yn cynyddu o'r 700 presennol i dros fil!

Ond tra bod ni'n dathlu dylwn gofio am ymdrechion gŵr o'r enw Carey Roberts ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf a olygodd bapur tebyg i'r "Dinesydd" o'r enw "Y Gaer". Odd hi'n hanner maint y papur presennol ac fe'i dosbarthwyd drwy'r capeli os cofiaf yn iawn.

Odd fy mam yn arfer anfon copi o'r "Gaer" ataf o fis i fis tra o'n i'n cyflawni fy ngwasanaeth milwrol yn Warrington. Wrth edrych mewn hen ddyddiadur o'm heiddo gwelais i fy mod wedi cyfarfod â Carey Roberts yn Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr nôl ym Mehefin 1955 a minnau adre am saib o'r fyddin ar y pryd. Onibai am y cofnod yn fy nyddiadur fyddwn i ddim wedi cofio'r achlysur! Ychydig dwy'n gwybod am y gŵr hwn ond dwy'n credu mai gogleddwr odd o ac yn aelod yn y Crwys. Hwyrach gall rywun fy ngoleuo ymhellach! Ond pob clod iddo am ei waith arloesol. Daeth y papur i ben ar ei farwolaeth.

Wel mae Leighton Andrews Gweinidog Addysg ac Iaith yn ein Llywodraeth ym Mae Caerdydd wrth ei fodd yn cynhyrfu'r dyfroedd ond o leiaf mae o'n fodlon rhoi ei ben ar y plocyn a mynegi ei farn yn ddiflewyn ar dafod! Yn ddiweddar penododd dwsin o wŷr a gwragedd doeth i drafod dyfodol ein Heisteddfod Genedlaethol a hwythau i adrodd yn ôl iddo y ffordd ymlaen yn eu tyb nhw. Mae'r Llywodraeth yn cyfrannu arian sylweddol at gynnal yr Eisteddfod ond tybed mai Llys yr Eisteddfod ddylai fod â'r gair olaf ynglŷn â hyn? Amser a ddengys beth ddaw yn sgil yr ymyrraeth hon gan Leighton Andrews.

Bore Sadwrn y gêm fawr rhwng Cymru a'r Alban o'n i wedi cael gwahoddiad i siarad mewn Cynhadledd Hyfforddiant i diwtoriaid Cymraeg i oedolion Sir Fynwy a hynny yng Ngwesty'r Parkway ger Cwmbrân. Synnais i weld dros ddeugain o bobl yn bresennol. Rhaid canmol y gwaith rhagorol a wneir dros yr iaith yn y rhan hon o Gymru dan arweiniad pobl fel Geraint Wilson Price, a Steffan Webb a'r llu o diwtoriaid sy'n gweithio mor ddyfal o wythnos i wythnos i sicrhau ffyniant i'r iaith yn y rhan hon o'r wlad. Daeth un o'r tiwtoriaid ataf i ddweud ei bod yn ferch i Sally Hughes Casnewydd sef un o'r athrawesau cyntaf pan sefydlwyd y Cylch Meithrin Cymraeg yn Rhiwbeina nôl yn 1959! Mae Sally yn derbyn "Y Dinesydd" bob mis er mwyn iddi gadw mewn cysylltiad â'r digwyddiadau Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro.

Siom gafodd ein tîm rygbi dan ugain oed pan gollon nhw yn erbyn Lloegr ym Mae Colwyn i dîm oedd yn gryfach a gwell na nhw ar y dydd a thrwy hynny collwyd y cyfle i ennill y Gamp Lawn. Ond os siom a gafwyd ym Mae Colwyn nid felly yn ein Stadiwm Genedlaethol pan wefreiddiwyd cefnogwyr Cymru gan berfformiad campus ein tîm cenedlaethol wrth iddyn nhw lorio Lloegr ac ennill y Pencampwriaeth yn y broses. Codwyd ysbryd y genedl i'r entrychion y diwrnod hwnnw – melys, moes, mwy!

# Ôl-Lwybrau

Pan oeddwn yn blentyn yn ystod y 50au, roeddwn i a'm holl deulu yn byw o gwmpas y Waun Ddyfal. Peth braf iawn i mi oedd fy mod yn gallu ymweld â phob aelod o'm teulu o fewn ugain munud o gerdded. Roeddwn yn ffodus fod gen i chwaer fach ac, ar ben hynny roedd gen i ddau gefnder a dwy gyfnither, a phob un ohonom wedi'n geni o fewn saith mlynedd i'n gilydd. Felly roedd digon o gwmni bob amser. Pob Sul byddem yn cerdded i Eglwys y Crwys a oedd, yr adeg hynny, ar bont Heol y Crwys. Byddem fel teulu yn eistedd gyda'n gilydd ac yn llenwi dwy sêt.

Yn unol â'i henw Cymreig man prysur oedd y Waun Ddyfal o ran masnach, ac yno y byddai fy mam yn gwneud ei siopa beunyddiol. Pan oedd angen prynu dillad arnom fyddem ni'n mynd i'r Bon Marche - siop fawr a chloc sgwâr y tu allan iddi. Roedd fy mam yn deyrngar i'r Bon Marche am ei nwyddau chwaethus ac am mai Cymry Cymraeg oedd yn berchen arni.

Yn ogystal â siopau a thai roedd nifer o adeiladau a mannau nodedig ar y Waun Ddyfal. Wrth gerdded o'r capel i gyfeiriad y gogledd byddem yn dod i orsaf yr heddlu ac yna i Eglwys Methodistaidd Cathays. Gyferbyn â hon, ar y safle y mae'r archfarchnad heddiw, roedd hen Goleg Technoleg Bwyd. Wrth ddod i ben y groesffordd erys dau adeilad urddasol sef Ysgol Gladstone, a godwyd ym 1905, a'r llyfrgell y byddwn yn ei mynychu'n gyson bob pnawn Sadwrn. Doeddwn i ddim yn mynychu Ysgol Gladstone gan fy mod yn mynd gyda fy ngheraint i Ysgol Gymraeg Bryntaf yn Llandaf pell. Y tu ôl i'r llyfrgell y gorwedd mynwent fawr Cathays ond hwyrach mai'r safle mwyaf ar y Waun Ddyfal ydoedd Gwersyll y Gatrawd Gymreig a oedd yn ymestyn am ryw hanner milltir sgwâr. Roedd waliau mawrion yn cadw'r cyhoedd rhag gweld i mewn a'r unig ran oedd yn weladwy o'r heol oedd y caeau gwyrddion. Symudodd y fyddin i ffwrdd a Thŷ'r Cwmnïau sydd yno heddiw a thorrwyd ffordd newydd drwy'r caeau -Ffordd y Goron- sy'n cysylltu Heol yr Eglwys Newydd â Heol y Gogledd.

Heb fod ymhell o'r safle hwn roedd Ysgol Gatholig Joseff Sant sydd erbyn heddiw yn Ysgol Gymraeg –Ysgol Gymraeg y Mynydd Bychan. Hwyrach mai dyma sydd yn arwyddocaol sef cymaint y mae pethau wedi newid oherwydd yn y 50au dim ond un ysgol Gymraeg ydoedd ac roedd Caerdydd yn ddinas Seisnigaidd iawn. Serch hynny roedd yr ardal brysur, swnllyd dinesig hon yn gartref annwyl i mi a'm ceraint a'n bywydau'n troi yn fwrlwm o Gymreictod o gwmpas cartrefi'n gilydd, Ysgol Bryntaf a'r capel. Mawr yw'r clod i'n rhieni am ofalu ein bod yn cael magwraeth yn y Gymraeg a hynny ym mhrifddinas ein gwlad.

**Eleri Bines**

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Er bod tywydd ddechrau'r flwyddyn yn rhwystr i lawer cymdeithas, cafwyd cyfarfodydd diddorol o'r Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd yn Festri Eglwys Minny Street, Y Waun Ddyfal dros y ddau fis.

Mae'r gymdeithas yn ffodus iawn i gael llywydd sydd â dawn arbennig i lunio cwisiau diddorol ar amrywiaeth o destunau. Llwyddodd Idwal Hughes a'i briod Mair unwaith eto i greu hwyl ac i oglais ac ehangu cof pob aelod. Diolch, Idwal!

Ar ddydd Mercher Chwefror 20fed, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Dr Elin Jones ar y testun "Amser i Newid", yn canolbwyntio ar ei phrofiad personol hi yn ystod salwch meddwl ei phriod, Dr Gwyn Jones. Hefyd soniodd am nod cymdeithas "Gofal Hafal" i roi diwedd ar y stigma, sef y rhwystr mwyaf, i ddeall a delio â phroblemau iechyd meddwl, trwy ymgyrch "Amser i Newid". Soniodd y gellir cefnogi'r ymgyrch ar y we - amserinewidcymru.org.uk.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r wraig wadd - Dr Christine James, darlithwraig a darpar Archdderwydd Cymru. Dewisodd siarad am Ddewi Sant a'r ffeithiau llai gwybyddus am ei fywyd a'i neges. Edrychir ymlaen at gael ei chwmni eto yn y dyfodol i sôn am ei barddoniaeth a'i phrofiad o ennill coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol fel Archdderwydd Cymru!

Ddiwedd Mawrth aeth yr aelodau ar daith weledol i Batagonia yng nghwmni Bob Pugh. Bu yn gweithio ym myd addysg drwy ei yrfa gan ofalu am Ganolfan Storey Arms ar un adeg. Un tro, arweiniodd grŵp o ddisgyblion Ysgol Glantâf i ymweld â'r Wladfa a gwnaed ffilm gan y plant i nodi'r achlysur. Roedd yn ddiddorol gwrando ar eu hargraffiadau o'r wlad.

Dewch i ymuno a'r gymdeithas. Cewch groeso gan bawb a chwpanaid blasus i orffen y prynhawn gan chwiorydd y pwyllgor!

# *Sioe Flodau yr RHS Caerdydd*

Bydd Sioe Flodau RHS Caerdydd yn dychwelyd i barciau Castell Caerdydd o 19-21 Ebrill, yn nodi dechrau'r gwanwyn, gyda sioe gyntaf RHS y tymor.

Hon fydd y nawfed sioe flynyddol yng Nghaerdydd, ac eleni bydd yn fwy nag erioed, â hyd yn oed mwy o flodau, cynlluniau gardd, ysbrydoliaeth ac adloniant ar ddechrau'r tymor garddio.

I gael tocynnau ar gyfer Sioe Flodau RHS Caerdydd ewch i www.rhs.org.uk/cardiff neu ffoniwch 0844 338 7528.

# MERCHED Y WAWR CAERDYDD

Daeth nifer dda o aelodau ynghyd ym mis Mawrth i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Cawsom noson ddifyr iawn yn gwledda a chymdeithasu gyda'n gilydd.

Paratowyd y bwyd gan gwmni Bant a la Cart ac roedd pawb yn canmol yr arlwy yn fawr iawn. Gwledd i'w chofio yn wir! Telynores ifanc, Eleri Datta, fuodd yn ein diddanu a'r gerddoriaeth hyfryd yn addas iawn i'r achlysur.

Hyfryd oedd cael cwmni rhai o'n haelodau sydd wedi methu bod gyda ni ers tro. Roedd y wen ar wynebau pawb wrth adael yn arwydd o noson llawn hwyl a'r mwynhad a gawsom.

Diolch i'r aelodau hynny a drefnodd y noson, ac i'r rhai a fuodd wrthi yn ddiwyd yn sicrhau llwyddiant yr achlysur.

# Dechrau Da i Ŵyl Newydd

Cafwyd blwyddyn gyntaf lwyddiannus eleni ar gyfer Gŵyl Llên Plant Caerdydd a chafodd miloedd o blant a phobl ifanc eu hysbrydoli gan rai o'r awduron a'r darlunwyr lleol a chenedlaethol cyfoes gorau, yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd bron i 50 o ddigwyddiadau a gweithgareddau mewn lleoliadau gwych ledled y ddinas, gan gynnwys amrywiaeth o gyfraniadau Cymraeg gan Dewi Pws, Angharad Tomos a Bethan Gwanas.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Huw Thomas "Mae'r ymateb i'r ŵyl gan blant ac oedolion wedi bod yn wych. Dyma ddechrau gwych i beth y gobeithiwn fydd yn ddigwyddiad blynyddol a fydd yn mynd o nerth i nerth i helpu plant i ddathlu gwefr darllen."

Cadwch lygad ar y wefan **www.gwylllenplantcaerdydd.com** a **@GwylLlenPlant** am fanylion gŵyl 2014 a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach eleni.


Cymrodorion Caerdydd

## Cyfansoddiad Cymru

Darlith Gyhoeddus gan

**Yr Athro Richard Wyn Jones**

•

**Nos Wener 26, Ebrill 7.30 yh**

•

**Neuadd Eglwys Dewi Sant, St Andrews Crescent**

# ADDYSG GYMRAEG - Y DYFODOL YN Y NIWL OND Y TWF YN PARHAU

Cafwyd 690 disgybl newydd yn ymuno ag ysgolion cynradd Cymraeg ym Medi 2012 gan adael ond 50 lle gwag, sy'n ymddangos yn ddigonol i gwrdd â'r twf tebygol erbyn Medi nesaf yn arbennig am y bydd 30 lle ychwanegol ar gael trwy agor Treganna newydd. Y broblem yw bod y llefydd gwag bron i gyd ar gael ar 3 safle yng nghanol y ddinas tra bod ysgolion yn y dwyrain a'r gorllewin yn orlawn.

Mae swyddogion RhAG yn poeni am y sefyllfa ac am y diffyg ymateb digonol o gyfeiriad y sir. Trefnodd RhAG gyfarfod ag aelod cabinet Caerdydd dros addysg ac wedi'r cyfarfod anfonodd RhAG lythyr yn cadarnhau'r pwyntiau a godwyd a'r angen i ddarparu mwy o le yn agos i'r galw yn y dwyrain a'r gorllewin.

Ni chafwyd ateb tan ddiwedd Ionawr ond roedd llythyr y sir yn aneglur a niwlog Soniwyd am 2 ffrwd arall oedd wedi'i sicrhau a hefyd, yn galonogol, dywedodd y bydd 4 ffrwd (neu ysgol) yn cael eu hychwanegu rhwng nawr a 2020 ac y byddai'r llefydd ychwanegol yn gyraeddadwy i'r cartrefi lle mae'r galw.

Yn ystod mis Chwefror dechreuodd y sir ymgynghori ar 3 chynllun datblygu addysg gynradd, yn ardal Sblot-Adamsdown, yn Butetown a'r trydydd yn nalgylchoedd Treganna a Phwll Coch.

Yn y cynllun cyntaf cynnig y sir yw codi nifer y ffrydiau Saesneg o 6 i 8 erbyn 2015, gan gymryd yn ganiataol bod pob un o'r 64 plentyn ychwanegol yn debyg o ddewis addysg Saesneg. Nid yw'r cynllun yn cynnwys dim darpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg er i ysgol Glan Morfa fethu â chwrdd â'r galw yn 2012.

Mae cynllun Butetown hefyd yn anwybyddu'r posibilrwydd bod y twf arfaethedig yn nifer y plant yn cynnwys plant bydd eu rhieni am ddewis addysg Gymraeg.

Mae'r trydydd cynllun yn delio ag addysg Gymraeg, ond mae'n cyhoeddi bod y sir yn mynd yn ôl ar y cynllun sydd wedi bodoli ers 2011 i agor trydedd ysgol yn ardal Grangetown i dynnu'r pwysau oddi ar ysgolion Treganna a Phwll Coch lle mae'r twf yn y galw wedi bod yn gyson ar raddfa o 10% y flwyddyn ers 2006.

Bwriad y sir yw peidio symud ymlaen â'r cynllun (sydd wedi cael sêl bendith Llywodraeth Cymru) i agor yr ysgol newydd tan 2016 ac efallai dim o gwbl, hyn yn wyneb twf cyson yn y galw lleol ac mewn ardaloedd cyfagos a thwf y dyfodol. Ateb y sir yw dymuno cadw trydedd ffrwd yn Ysgol Pwll Coch mewn cabanau symudol heb ddarpariaeth ychwanegol at ffreutur na neuadd. Cafodd y cynllun dderbyniad ymfflamychol gan rieni Pwll Coch mewn cyfarfod yn yr ysgol ar Fawrth 19eg.

Mae'r rhifau ar gael o nifer y ceisiadau am le i ddechrau addysg gynradd Gymraeg Fedi nesaf, sef 691 i gyd o ba rai gafodd 655 eu dewis cyntaf, 21 ail ddewis mewn addysg Gymraeg, 6 mewn addysg Saesneg a 9 yn aros am le. Y broblem yw bod yr ysgolion lle mae ceisiadau hwyr wedi digwydd o'r blaen yn llawn neu bron yn llawn yn barod.

*Michael Jones*

## APÊL YSBYTY PLANT CYMRU

Mae Ysbyty Plant Cymru yn apelio am ddeunydd Cymraeg a byddant yn falch iawn o dderbyn unrhyw lyfrau, cryno ddisgiau, cerddoriaeth neu DVDs nad oes arnoch eu hangen mwyach. Mae'r ysbyty'n derbyn nifer o blant Cymraeg eu hiaith o bob rhan o'r wlad ac maent yn brin o ddeunydd ar eu cyfer. Os gallwch helpu yna gallwch fynd â'r hyn sydd gennych i'r ysbyty, neu gysylltu ag Avril Gowman (avril.gowman@wales.nhs.uk) neu'r Swyddog Iaith alun.williams@wales.nhs.uk.

## dathlu gŵyl dewi

Bu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi Llyfrgell Ganolog Caerdydd yn llwyddiant eleni. Yn y bore cafwyd amser stori a chân i'r plant lleiaf mewn partneriaeth â Menter Caerdydd, a sesiwn blasu i ddysgwyr gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion. Dros yr awr ginio bu'r pianydd John ap Evans yn difyrru defnyddwyr y llyfrgell efo detholiad o hen alawon Cymreig ac yn y prynhawn cawsom sgwrs ddifyr dros ben gan Lowri Cooke am ei theithlyfr diweddar 'Canllaw Bach Caerdydd', cyfrol anhepgor ar gyfer ymwelwyr â Chaerdydd sy'n hynod o ddefnyddiol i'r rhai ohonom sy'n byw yn y ddinas hefyd.



# YSGOLION

## Ysgol Bro Edern

**Eisteddfod Ysgol Bro Edern**

Ar y gyntaf o Fawrth, fe gafon ni Eisteddfod gyntaf Ysgol Bro Edern. Yn y bore roedd pawb yn ymarfer am y tro olaf yn eu llysoedd a phob un yn gystadleuol dros ben! Y tri llys yw Rhymni, Hafren a Thaf. Yn y neuadd roedd pawb yn lliwiau'r llys yn barod i berfformio o flaen beirniaid y dydd. Yn ystod y dydd roedd unigolion wedi canu, llefaru, dawnsio a chwarae offerynnau a grwpiau wedi perfformio cân yn y Ffrangeg, sgets ddoniol a mwy.

Yn y prynhawn roedd y seremoni Cadeirio. Enillydd cystadleuaeth y Gadair oedd Bedwyr Bowen a ysgrifennodd gerdd ar y tesun 'Ofn'. Enillydd y Tlws Saesneg oedd Megan Naish.

*Amelia Giles*

**Darllen gyda disgyblion iau**

Fel rhan o weithgareddau Diwrnod y Llyfr 2013 aeth criw bach o ddisgyblion blwyddyn 7 i ddwy o ysgolion cynradd y clwstwr, Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol y Berllan Deg i ddarllen gyda disgyblion blynyddoedd 2 a 3.

**Twmpath Cyfeillion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern**

Cynhaliwyd Noson Twmpath Y Cyfeillion yn Neuadd Eglwys Sant Phillip Evans ar Rodfa Llanedern ar Nos Wener 8fed o Fawrth. Roedd y noson yn gyfle gwych i ddathlu llwyddiant yr ysgol ar ddiwedd ei hail dymor llawn. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

**Diwrnod Trwynau Cochion**

Llongyfarchiadau mawr iawn i ddisgyblion Blwyddyn am godi dros £100 tuag at y diwrnod Trwynau Cochion diweddar. Llwyddodd tri thîm o ddisgyblion i rwyfo pellter yr afon Taf mewn cystadleuaeth rhwyfo ar beiriannau rhwyfo'r Ysgol.

Cymerodd Brychan Mckay, Amelia Giles, Lauren Connelly, Laura Richards, Hafwen Hibbard a Harriet Williams ran mewn cystadleuaeth pobi cacennau a dywedodd y beirniad, Mr Dyfan Roberts bod safon y gystadleuaeth yn uchel dros ben a'i fod wedi mwynhau blasu'r holl gacennau.

## Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

**Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rotari**

Mae'r ysgol wedi cael cryn lwyddiant eleni ym maes siarad cyhoeddus.

Ar nos Fercher 30ain Ionawr 2013, cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari yn Ysgol



Bechgyn y Barri. Roedd dau dîm o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn cystadlu ar gyfer CA3 ac roedd un yn llwyddiannus. Enillodd Lois Aled, Nia Fenn a Caleb Darwin gyda'r pwnc: 'Are we clowns for experimenting with cloning?' Yn y gystadleuaeth dros 14 daeth Morwenna Osmond, Betsan Jones a Rhiannon Berry yn ail yn erbyn Bryn Hafren gyda Betsan yn ennill y wobr am 'cynigydd' gorau.

Fe aeth Lois Aled, Nia Fenn a Caleb Darwin ymlaen i gystadlu yn y rownd nesaf a gynhaliwyd yn Neuadd Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ar nos Fawrth 19eg Chwefror ac roedd eu dadl "Are we clowns for Cloning?" yn fuddugol unwaith eto. Enillodd pob aelod o'r tîm wobrau unigol hefyd - Caleb Darwin y cynigydd gorau, Lois Aled y siaradwraig orau a Nia Fenn y gadeiryddes gorau.

Penllaw'r cystadlu oedd mynd i Gaerdydd ar ddydd Gwener 8fed Mawrth i gystadlu i fod yn Bencampwyr 'Youth Speaks' De Cymru. Daeth 15 o ysgolion De Cymru at ei gilydd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro i gystadlu.

Roedd dwy gystadleuaeth wahanol, un Canolradd i ddisgyblion 11-14 oed ac un Uwch i ddisgyblion 15-17 oed. Roedd Nia Fenn, Lois Aled a Caleb Darwin o Fl. 9 yn cystadlu yn y gystadleuaeth Ganolradd. Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn gyda thîm St John Lloyd Catholic Comprehensive School o Lanelli yn ennill a thîm Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ail. Gwnaeth Lois Aled ennill y wobr am siaradwraig orau.

Llongyfarchiadau gwresog i'r tri ar eu camp!

## Ysgol Nant Caerau

**Steddfod Ysgol**

Ar ddydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd ein Heisteddfod Ysgol. Roedd cystadlu brwd rhwng y tri llys - Elái, Hafren a Taf. Yn ystod yr wythnos cynhaliwyd nifer

o gystadlaethau darlunio, peintio a llawysgrifen. Roedd nifer o eitemau ardderchog!!

Agorwyd yr Eisteddfod gyda chân gan gôr Y Feithrin a Derbyn. Roeddent yn swynol iawn. Roedd nifer o gystadlaethau llefaru a chanu yn ystod y dydd. Llys Hafren enillodd cystadleuaeth y côr.

Uchafbwynt yr Eisteddfod oedd y Seremoni Cadeirio. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal cadeirio yn ein hysgol. Y gystadleuaeth oedd ysgrifennu stori greadigol a chafodd ei feirniadu gan Mr Owain ap Rhys, un o'n llywodraethwyr. Cafodd lawer o hwyl yn darllen y storïau doniol a dychmygus a bu cryn dipyn o grafu pen. Yn drydydd daeth Georgia Hancock, Elái ac yn ail oedd Harvey Mohamed, Hafren. Ond enillydd y gadair oedd Thomas Gallimore. Mae Thomas wedi ennill tarian fach i'w gadw. Llongyfarchiadau Thomas. Llys Elái ddaeth yn fuddugol ar ôl cyfrif holl ganlyniadau'r Eisteddfod.

Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Trwynau Coch**

Cawsom ddiwrnod arbennig dydd Gwener ddiwethaf. Gwisgodd pawb wisg goch neu wallt gwyllt ar gyfer yr achlysur. Cawsom lawer o hwyl. Gwerthwyd trwynau coch yn ystod yr wythnos a chasglwyd dros £300. Ardderchog!

**Diwrnod y Llyfr**

Dathlwyd diwrnod y llyfr mewn steil! Gwisgodd y plant a'r staff fel cymeriad allan o'u hoff lyfr. Cafwyd nifer o weithgareddau darllen ac am lyfrau yn ystod y dydd. Diwrnod gwerth chweil!

**Clwb Dysgu a Siarad**

Mae rhieni blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn gweithio yn y dosbarth gyda'u plant. Maent wedi derbyn mewnbwn gan athrawes arbenigol Coaimhe Thomas. Bu cyfle i'r rhieni a gwarchodwyr drafod amrywiaeth o destynnau i ymwneud â phlant gan gynnwys e-ddiogelwch, disgyblaeth, helpu darllen, diet a.y.y.b.

## Ysgol Glantaf

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Owen Bradshaw sydd wedi ennill gwobr 'Seren y Dyfodol' ar gyfer ei gyfraniad i hoci iâ. Mae Owen sydd yn ddisgybl ym mlwyddyn 10 yn Ysgol Glantaf yn chwarae i'r 'Cardiff Devils' 'dan 16 a hefyd yn cynrychioli timau Lloegr 'dan 15 a 16. Mae Owen hefyd yn rhan o dîm datblygiadol 'dan 18 y Deyrnas Unedig. Dechreuodd chwarae hoci iâ pan oedd yn 6 mlwydd oed ac mae erbyn hyn yn un o chwaraewyr mwyaf talentog Prydain.

Llongyfarchiadau i Harry Hayes o flwyddyn 7 sy'n bencampwr Cymru 'dan 12 yng nghystadleuaeth y ffoil ym mhencampwriaethau ffensio Ieuenctid Cymru.

Llongyfarchiadau i Declan Ford o flwyddyn 7, sydd ar hyn o bryd yn perfformio yn 'The Cunning Little Vixen' gydag Opera Cenedlaethol Cymru. Mae Declan hefyd wedi cael ei ddewis i ganu unawd o'r anthem genedlaethol a'r ffilm newydd i Undeb Rygbi Cymru fydd yn cael ei ddarlledu yn ystod gemau rhyngwladol yr Hydref.

**Diwrnod y Llyfr**

Cafodd Dydd y Llyfr ei ddathlu eleni ar ddydd Gwener 8/3/13. Roedd athrawon a disgyblion yr ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau adnabyddus o lyfrau enwog. Roedd pawb wedi mynd i ymdrech fawr. Trefnwyd fod dosbarth 7D yn ymweld ag Ysgol Melin Gruffydd i berfformio eu storïau gwreiddiol eu hunain i ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 yr ysgol. Cafwyd amser bendigedig gan fod disgyblion Melin Gruffydd wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau o lyfrau hefyd. Diolch i bob disgybl yng Nglantaf am gyfrannu £1 at sefydlu llyfrgell a chanolfan adnoddau newydd yn yr ysgol. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn.



*Lewis Turton o Ysgol Glantaf yn darllen gyda phlant Ysgol Melin Gruffydd.*

## Ysgol y Wern

**Eisteddfod yr Urdd 2013**

Unwaith eto eleni bu llawer o blant yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod a phawb yn gwneud gyda brwdfrydedd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu. Bydd y cystadleuwyr a ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod Sir nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli Rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro a dymunwn pob lwc iddynt.

Parti Unsain – 3ydd
Unawd Pres – 1af Jacques Segrott
Unawd Chwythbrennau – 1af Ismay Evans
Unawd Llinynnol – 1af Lizzie Lovell-Jones
Unawd Piano – 1af Lizzie Lovell-Jones
Ensemble – 1af (Lizzie, Ismay a Dafydd)
Cerddorfa – 1af
Dawnsio Disgo Unigol Bl.6 ac iau – 1af Ioan Wyn Williams

Côr-1af
Grŵp Dawnsio Disgo – 1af
Grŵp Dawnsio Gwerin – 2il
Cân Actol-2il

Cafwyd llwyddiant yng nghystadlaethau Celf a Chrefft y Sir hefyd. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn cael ei arddangos yn y Babell Celf a Chrefft yn Sir Benfro.

Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 3 a 4 – 1af Gethin Wyn Price
Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl 6 ac iau- 3ydd Dewi B-Jones
Dyluniad 2D Bl 6 ac iau- 1af Lowri Skyrme
Gwaith Creadigol 3D Bl 5 a 6- 1af Lowri Skyrme
Gwehyddu Bl 3 a 4- 2il Griffydd Tomos Evans
Print Du a Gwyn Bl. 3 a 4– 2il Owain Skyrme
Print Lliw Bl. 5 a 6 – 2il Alys Gwynedd
Cyfres o Brintiau Du a Gwyn- Bl 3 a 4- 3ydd Gethin Wyn Price
Cyfres o Brintiau Du a Gwyn- Bl 5 a 6- 2il Alaw Donovan

Fe wnaeth yr ysgol gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd eleni. Braf oedd gweld gymaint o ddisgyblion yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau mawr i Mared Arch a wnaeth ennill y gystadleuaeth yn yr ysgol ac aeth yn ei blaen i'r rownd gynderfynol yn Ysgol Gyfun Llanhari.


# Plaid Cymru

## Etholaeth Gogledd Caerdydd

Ydych chi eisiau bod yn rhan o'r gwaith o drawsnewid Cymru? Mae Plaid Cymru yn chwilio am unigolion sydd am fod yn rhan o'r ymdrechion i lywio dyfodol gwell i'n cenedl. Os ydych chi'n credu y gallwch wneud cyfraniad drwy sefyll fel ymgeisydd Cynulliad neu San Steffan posibl yng Ngogledd Caerdydd, yna cysylltwch nawr.

Mae'r cyfnod enwebu newydd agor a bydd gofyn i chi anfon cais atom erbyn Mai 31ain, 2013.

Am ragor o fanylion neu am sgwrs anffurfiol cysylltwch â
Mali Rowlands – 02920623491
malirowlands@yahoo.co.uk


# Cwlwm Busnes Caerdydd yn dathlu dau ddegawd

"Rydyn ni'n gwybod gormod am sut mae pethau nawr, a dim syniad am sut fydd pethau," meddai'r cyfreithiwr Emyr Lewis, wrth drafod deddfu yng Nghymru ers 1993, sef y flwyddyn y sefydlwyd Cwlwm Busnes Caerdydd.

Roedd Mr Lewis yn annerch bron i 100 o bobl fusnes Caerdydd mewn cinio i ddathlu 20 mlynedd o'r fforwm sy'n rhoi cyfle i bobl fusnes y brifddinas gwrdd, rhwydweithio a thrafod materion yn ymwneud â busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ei rôl fel aelod o dîm Canolfan Llywodraethiant Cymru, ac arbenigwr ar gyfraith Cymru, soniodd am dair deddf newydd gafodd eu cyflwyno i Gymru ym 1993. Un o'r rhain oedd Deddf yr Iaith Gymraeg a gyflwynodd, am y tro cyntaf, hawliau i'r iaith Gymraeg mewn llysoedd. Yn ôl Mr Lewis, cafodd y ddeddf effaith enfawr ar Gymru drwy roi hyder i'r iaith Gymraeg ym myd busnes.

Ond roedd y ffocws ar ddyfodol deddfu. "Beth fydd y deddfau newydd erbyn 2033?" gofynnodd. "Pwy a ŵyr! Beth sydd yn sicr yw y bydd chwyldro yn y maes deddfu oherwydd y Cynulliad Cenedlaethol."

Roedd Mr Lewis o'r farn nad oes digon o hunanhyder gan y Cymry ar hyn o bryd i basio rhagor o ddeddfau ein hunain. Pwysleisiodd bod angen ceisio rhagweld yr hyn sydd o'n blaenau er mwyn sicrhau llwyddiant i fusnesau yng Nghymru.

Hybu'r hunanhyder hwn yw un o brif amcanion Cwlwm Busnes Caerdydd, a hynny ar adeg pan mae galw cynyddol yn y gweithle am siaradwyr Cymraeg.

Dywedodd David Boobier, Cadeirydd Cwlwm Busnes Caerdydd: "Mae apêl y Cwlwm yn unigryw – does dim fforwm arall o'i math, a da gweld bod yr aelodaeth ar gynnydd."

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Catrin Taylor ar 07815 743505, e-bostiwch cwlwmbusnes@gmail.com neu edrychwch ar ein gwefan www.cwlwmbusnescaerdydd.com



*Emyr Lewis, David Boobier, John Elfed Jones*

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

### Sul i Ddathlu

Cafwyd Sul prysur ond llawen ar 3 Mawrth. Cawsom gyflwyniadau, yn ogystal â chân gan y plant a phawb wedi dotio atynt yn eu hamrywiol wisgoedd. Daeth Margaret Pritchard, prif weithredwr Hosbis Gofal George Thomas atom hefyd i dderbyn siec o £1850 yn swyddogol Dyma oedd ein helusen hyd at ddiwedd 2012. Braf oedd cael cyfle i groesawu Dylan Rhys o Gaernarfon fyddai'n treulio mis yn ein cwmni i gael profiad o weithio yng nghanol amrywiol weithgareddau'r eglwys ac yntau a'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth. Croesawyd a chyflwynwyd anrhegion i ddwy Almaenes hefyd a hwythau ar ymweliad cyfnewid ag ysgol Glan Taf.

### Gŵyl bregethu

Dyfrig Rees, Rhydaman oedd ein pregethwr gwadd ar 10 Mawrth. Yn y ddwy bregeth cymerodd ei destun o Efengyl Marc. Yn y bore soniodd am Iesu yn cael ei yrru i'r anialwch a hynny gan gariad Duw. Gyda'r nos wedyn taflu'r hadau ar led a mentro allan â'r Efengyl. Diolch am ei neges gref a heriol i fentro allan.

### Cinio Gŵyl Ddewi

Unwaith eto eleni penderfynodd y Gymdeithas fynd i Glwb Golff Yr Eglwys Newydd i ddathlu. Y siaradwr gwadd eleni oedd Parch Kevin Davies. Cafwyd ychydig o hanes Dewi Sant a sut y dylem fod yn ei efelychu wrth fynd allan â'r Efengyl. Bus sgets hefyd gyda help rhai o'r aelodau, ac wrth gwrs gwnaeth drefniant blodau gyda Chennin Pedr.

### Cyfarchion

Dathlodd dri o'r aelodau ben-blwydd arbennig yn ystod mis Mawrth - Arwel Peleg Williams, Arfon Jones ac Eleri Evans.

### Stafell Fyw

Ar fore Sul, 17 Mawrth daeth Wynford Ellis Owen atom i sôn am waith y Stafell Fyw. Dyma ein helusen am y chwech mis nesa. Maent yn cynnig lloches, cefnogaeth a chyngor i rai sy'n gaeth i gyffuriau, alcohol ac amrywiol bethau eraill. Ewch i www.livingroom-cardiff.com i ddarllen mwy am y gwaith.

## Bethel, Rhiwbeina

Eleni bu aelodau a chyfeillion Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Parkhouse ac fe gafwyd cinio gwerth chweil. Yn ogystal â'r bwyd cafwyd mwynhad mawr hefyd yn gwrando ar un o'n haelodau, Trystan Francis, yn canu. A braf oedd clywed bod chwaer Trystan, Lowri, wedi dychwelyd adre ar ôl cyfnod mewn ysbyty.

Croesawyd aelod newydd, Mrs Catrin Collins, Rhiwbeina. Pob bendith iddi hi a'i theulu yn ein plith.

## Tabernacl

### Banc Bwyd Caerdydd

Cytunodd y diaconiaid ein bod yn cefnogi gweithgaredd Banc Bwyd Caerdydd drwy dderbyn cyfraniadau o fwydydd cyfaddas mewn pecyn, tin, neu laeth UHT a sudd oren mewn carton ar y Sul cyntaf o bob mis, i'w cludo i'r ganolfan yn Nhreláí. Mae'r sawl a fydd yn derbyn y bwydydd hyn yn cyflwyno taleb sy'n cael ei gyflwyno gan weithwyr cymdeithasol neu bobl o statws proffesiynol cyfatebol er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n derbyn yn deilwng o'r cymorth.

Ar wahân i gynnig bwydydd priodol, bydd Banc Bwyd Caerdydd yn falch o dderbyn enwau a chyfeiriad e-bost oddi wrth wirfoddolwyr i gasglu bwydydd oddi wrth y cyhoedd yn yr archfarchnadoedd priodol neu/a gweithio fel gwirfoddolwyr yn y canolfannau dosbarthu. Am fwy o wybodaeth ewch at www.cardifffoodbank.org.uk neu ffonio 07837477138.

### Cofio Myfanwy Jones

Bu farw Myfanwy Jones, Llanbleddian a chydymdeimlwn gyda'i phriod Elwyn, ei merched Margaret a Mary, a'r wyrion i gyd. Roedd yn nyrs o ran ei galwedigaeth, er iddi fod yn gefn i'w priod pan roeddent mewn busnes yn Bancffosfelen. Ymddeolodd y ddau o'r siop yn 1975 a symud i Llanbleddian.

### Cymdeithas y Chwiorydd

Cafodd y chwiorydd sawl cyfarfod hwyliog yn ddiweddar, un o dan arweiniad Margaret Rees, ac un arall dan arweiniad Margaret Elwyn Williams pan fu'n arddangos ei gwaith llaw. Cyflwyniad am ddatblygiadau diweddaraf Lesotho a gafwyd gan Non Rees, ac mae'n gyffrous i glywed am y gwelliannau yno.

### Cymdeithas Nos Fawrth

Gwerthfawrogwyd dwy ddarlith tan gamp dros y mis diwethaf, y naill gan Betsan Powys am hynt ei bywyd, a'r llall gan Gareth Williams yn sôn am y cythraul canu.

### Bore Coffi

Diolch i Alan ac Alwen Kemp am eu croeso yn ystod mis Chwefror. Cafwyd croeso tebyg ar y 13eg o Fawrth ar aelwyd Jean Evans yn Nhongwynlais.

# Eglwys Dewi Sant

### Gŵyl Dewi

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni'r Parchedig Barry Thomas, ein pregethwr gwadd. Roedd hefyd yn achlysur teuluol dra phwysig iddo, gan fod ei wyres fach Elen Mai, merch Nia a Rhisiart, yn cael ei bedyddio yn ystod y gwasanaeth. Cyflwynwyd cannwyll iddi gan blant yr Ysgol Sul wrth ei chroesawu i deulu'r eglwys.

Ymunodd teuluoedd Nia a Rhisiart â'r gynulleidfa yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth i fwynhau cawl a phwdin.

### Sul y Fam

Roedd hi'n braf gweld plant yr Ysgol Sul yn helpu'r Ficer wrth iddo esbonio pwysigrwydd dathlu rôl y fam. Derbyniodd y gwragedd dusw o gennin Pedr yr un gan y plant fel arwydd o ddiolch.

### Cymdeithas Nos Iau

Mwynheuodd pawb sgwrs ddifyr Karl Davies am ei ymweliadau â Siapan a'i argraffiadau o'r wlad a'r bobl. Cawsom brofi danteithion Siapaneaidd diddorol diolch i haelioni Karl.

### Agor yr Eglwys

Bydd yr Eglwys ar agor i'r cyhoedd rhwng 11 a 5 bob dydd Mercher o hyn ymlaen ac mae croeso i bawb alw i mewn.

# Eglwys y Crwys

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Helen Roddick a Richard Ace ar enedigaeth Manon Wyn, wyres fach i Winston a Cennin Roddick. Maent yn ymgartrefu yn Y Bontfaen.

### Y Gorlan

Cafwyd cwmni Mr Wynford Ellis Owen i sgwrsio am 'Yr Ystafell Fyw'. Diolch iddo am ei waith clodwiw gyda'r ymgyrch gwerthfawr hwn. 'Paratowyd at y Pasg' yng nghwmni'r Athro John Gwynfor Jones a chafwyd budd a bendith o'r myfyrdod.

### Y Gymdeithas

Dathlwyd Gŵyl Dewi gyda chinio yng Nghlwb Golff Caerdydd yng nghwmni ein Siaradwr Gwadd, Russell Isaac. Bu'n brynhawn teilwng o'r dathliad a diolch i Peter a Catrin Rowlands am y trefniadau.

Cafwyd Gwasanaeth Cymun bendithiol o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch Glyn Tudwal Jones, Fore'r Groglith. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Gymdeithas.

### Y Grŵp Merched

Da oedd cael croesawu'r Athro Gwynedd Pierce i annerch ar 'Enwau Lleoedd'. Mae'r Athro Pierce yn awdurdod ar y pwnc a chafwyd noswaith addysgiadol yn ei gwmni.

Croesawyd Mrs Rhian Gillard i 'Baratoi at y Pasg' a chafwyd noson fendithiol.

### Cylch Dorcas

Mae'r Cylch Dorcas yn cyfarfod bob bythefnos yng nghartref Mrs Ros Williams. Defnyddiodd Dorcas ei thalentau a'i hadnoddau i wasanaethu'r anghenus, a'r gobaith yw y gwna ei stori ysbrydoli ein chwiorydd i wneud hynny yn ein plith.

# Minny Street

### Genedigaeth

Croeso cynnes i Mari Gwenllian Hughes, merch i Meinir a Dewi a chwaer fach i Leisa a Dafydd. Dymunwn yn dda i'r teulu.

Ar ddechrau'r mis oedd dathliad Gŵyl Dewi Sant yng nghanol pythefnos Masnach Deg ac fe gafodd y ddau eu lle priodol gyda'n Gweinidog yn pregethu ar "Byddwch lawen" Dewi a'r Oedfa Foreol yn pwysleisio'r cyfrifoldeb oedd arnom i gefnogi Masnach Deg.

Bywyd y Parch Michael D Jones oedd testun ein Gweinidog yn ei gyflwyniad i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Gymdeithas ac yn y cyfarfod Gymdeithas arall un o organyddion ein heglwys, Dr Owen Pickerell, oedd y gwestai ac fe gafwyd noson i'w chofio

Trwy goetir Nant Fawr, rhwng Cyncoed, Llanisien a Llysfaen oedd y daith gerdded a phawb wedi mwynhau.

Cyplyswyd Pythefnos Masnach Deg a Sul y Mamau drwy gael dwy fam, un o Gymru ac un o Malawi i siarad am eu gwaith bob dydd gwahanol diderfyn i gynnal eu teulu.

Mae Taith Trydar ein Gweinidog dros gyfnod y Grawys wedi bod yn hynod o boblogaidd. Ers Dydd Mercher y Lludw mae trydar dyddiol wedi ymddangos ar @MinnyStreet i'n harwain ar hyd camau'r daith.

Roedd PIMS (Pob Ifanc Minny Street) wedi bod yn trafod enwadaeth ddoe, heddiw ac yfory.

Daeth Bethania i ben ar ôl wythnosau diddorol iawn yn trafod mewn dyfnder Credo'r Apostolion.


Codwyd dros £600 punt dros elusen yr eglwys, sef Achub y Plant, o'r Sioe Ffasiwn o ddillad Siop Cathy Gittins pan fodelwyd dillad trawiadol iawn gan ddau aelod o'r eglwys ymysg eraill.

Dewisodd ein Gweinidog Y Fatican fel thema i'r cinio Cegin Cynnen.

Wrth edrych ymlaen at wasanaethau'r Pasg - uchafbwynt ein cred, anterth yr Wythnos Fawr a diwedd y Grawys, beth fydd Trydar ein Gweinidog?

Cofiwch fod manylion holl weithgareddau'r eglwys ar www.minnystreet.org.

# DINESAIR Rhif 131



## Ar Draws

1. Ffugio coginio hebddom ni (5)
4. 'Cais y -------, cod y syrthiedig'(efel IG) (7)
8. '------ i ras ydwyf fi
   Am ras cyfamodol mae 'nghân' (AMTcyf) (7)
9. Hynt gafr wyllt yn llyncu cwt y ddrudwy (5)
10. 'A bu'r Ysbryd Glân yn ------,
    Fel colomen, yn dy goed'(DGJ) (4)
11. Mae nifer yn dechrau defnyddio ein gwefan (3)
12. Llwch lleuad mwy ar yn ail (4)
15. 'Heddiw'r ------ a agorwyd,
    Ddisglair fel y grisial clir'(WW) (6)
16. Sŵn tap yn troi'r ffon. (6)
19. Digon i ddau (4)
21. Twrw tywod di-ddiwedd (3)
22. 'Torrodd y ------ fel y dydd cyntaf
    Canodd y fronfraith foddus ei llef'
    (efel.WNW)(4)
26. Ffin tra aur yn Ffrainc (5)
27. Gwyliedydd mewn ras llwy gyffrous cyn dechrau reiat (7)
28. Canwr unig (7)
29. Fel y mae'n abl, mae'n bigog (5)

## I Lawr

1. Bag cwsg di-ddiwedd person (5)
2. Malwoden ddaw dros nos ganol heno (7)
3. Gohirio codi o gôl Gideon (4)
4. Anifail gwyllt a gorchudd amdano fel blanced (6)
5. Y maen i hurio (4)
6. 'Llithrodd ei flewyn cringoch dros y grib
   Digwyddodd ,------, megis seren wîb'(RWP) (5)
7. Tymor y defaid bach eiddil (7)
13. 'Y weddi i'r sêr, fel ------ o bêr
    A minnau'n ei chlywed hi' (TRH) (3)
14. Y doeth yn codi'n rhydd (3)
15. Torra goed yn y ffau a gwna fratiau (7)
17. Codi tô Lloegr ond nid yn syth (6)
18. Mae dan yr wyneb yn ddynol efallai (6)
20. Brefa yn groch am whilber (5)
23. 'Ar feysydd llwyd a gweirglodd las
    Ac awel ------ fel y gwin' (IDH) (5)
24. Dichell Mr. Pitt efallai! (4)
25. Y chwith yn ymddangos mewn dinas wych (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 6 Mai.

**Enillydd Croesair Rhif 129 -**

**Mel Dunsford, Pontnewydd, Sir Gâr**

**Atebion Rhif 129**

**Ar Draws** – 1. Eglwysig; 6. Hidl; 8. Sali; 9. Afradlon; 10. Adeiladwyd gan; 11. Pump; 13. Swci; 17. Lladron penffordd; 20. Tymhorol; 21. Lima; 22. Saib; 23. Fore gwyn

**I Lawr** – 2. Gwaedu; 3. Weithiau; 4. Smala; 5. Gorffwys; 6. Hadyd; 7. Diofal; 12. Pentref; 14. Cyffylog; 15. Manyla; 16. Tramwy; 18. Rahab; 19. Eglur

# Gwarchod Enwau

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru wedi derbyn £60,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect arloesol GWARCHOD - Enwau Lleoedd Cymru. Dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n aelodau o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a chymunedau cefnogol lleol mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gasglu, cofnodi a gwarchod enwau Cymru. Mae hyn yn cynnwys enwau lleoedd, ffermydd, caeau, pyllau afonydd, murddunnod a llawer mwy.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd cyfleoedd i bawb i gyfrannu ac i ddysgu am bwysigrwydd enwau a'r hanes y maent yn ei ddatgelu. Bwriedir cofnodi enwau ar fapiau digidol cenedlaethol, ar gronfa ddata cenedlaethol ac ar gryno ddisgiau, i'w gwneud yn hygyrch i bawb.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Calendr y Dinesydd • Ebrill - Mehefin

**Mercher, 10 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Catrin a'i Phobl.' Sgwrs gan E. Gwynn Matthews, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 10 Ebrill**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Elen Bowman o Theatr Genedlaethol Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Mercher, 10 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen y Garth. Noson i'r Dysgwyr yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 8.00pm. Croeso i ddysgwyr o unrhyw lefel ddod am noson o ymarfer siarad Cymraeg mewn sefyllfa naturiol.

**Iau, 11 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Rocet Arwel Jones. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Llun, 15 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni'r Parch. Dyfrig Lloyd, Ficer Eglwys Dewi Sant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Gwener, 19 Ebrill**
Clwb y Diwc. Noson yng nghwmni Caryl a Ffrindiau yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 20 Ebrill**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00. Am 11.00am, sgwrs gan Dewi George am sir Gaerfyrddin. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 24 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Llŷr Gwyn Lewis am ei farddoniaeth, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 26 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Yr Athro Richard Wyn Jones yn trafod Cyfansoddiad Cymru, yn festri Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Sadwrn, 27 Ebrill**
Cyngerdd 'Dathlu Deg' Côr CF1 yn Eglwys St German, Adamsdown am 7.00 pm. Ymunwch â Chôr CF1 wrth iddynt ddathlu eu pen-blwydd yn ddeng mlwydd oed eleni, yng nghwmni'r darlledwr a'r newyddiadurwr, Garry Owen, y tenor Wyn Davies a'r Sinfonietta Brydeinig. Tocynnau: £10 / £5 (i blant dan 16), er budd elusen Marie Curie Cancer Care. Manylion pellach: corcf1@gmail.com.

**Mawrth, 30 Ebrill**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar y testun 'Tirwedd Lenyddol Gwent' gan Frank Olding. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Bydd derbyniad gwin yn dilyn y ddarlith. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 1 Mai**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Nerys Howell, yr ymgynghorydd bwyd, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Gwener, 3 Mai**
***Cylch Cadwgan. Y Prifardd Aled Gwyn*** yn siarad ar y testun 'Crafion', yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Mawrth, 7 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Blynyddol. Sgwrs gan Gareth Miles am ei nofel, *Gaucho Ffos Halen*. Manylion pellach: cirypalfrey@yahoo.co.uk.

**Mercher, 8 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Derith Rhisiart yn sôn am Ganolfan Wallich, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 9 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Cymorth Cristnogol dan ofal y Parch. Robin Samuel, yng Nghapel Minny Street, am 7.30pm.

**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif westai: Jon Gower. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 14 Mai**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Dysgwyr, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Gwener, 17 Mai**
Clwb y Diwc. Noson Gomedi yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna, am 8.00pm.

**Sadwrn, 18 Mai**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg a drefnir gan yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Ymweliad ag Oriel Gelf yr Amgueddfa Genedlaethol yng nghwmni Marc Evans. Cwrdd ym mynedfa'r Amgueddfa am 10.30am. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 18 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc: Taith Wanwyn. Gwibdaith i Lwydlo. Arweinydd: Keith Bush. Cyfarfod wrth Orsaf Llwydlo am 10.30am. (Bydd trên yn gadael Caerdydd am 8.50am ac yn cyrraedd Llwydlo am 10.15am.) Cysylltwch ag Alan Jobbins am ragor o wybodaeth: asjobbins@btinternet.com

**Sadwrn, 18 Mai**
Côr Philharmonig Caerdydd yn cyflwyno 'Wind Band Mass' gan Haydn, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, gan ddechrau am 7.30pm.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd gan Barti'r Waun Ddyfal, yng nghapel Bethel am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith brynhawn i Fro Morgannwg.

**Mercher, 5 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 5 Mehefin**
Merched y Wawr Bro Radur. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Mawrth, 11 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Ryseitiau a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Trafod heddychiaeth yng nghwmni'r Parchedigion Guto Prys ap Gwynfor ac Owain Llŷr Evans a'r Uwchgapten Alun Davies, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm.

**Gwener, 14 Mehefin – Gwener, 21 Mehefin**
TAFWYL

**Gwener, 14 Mehefin**
Clwb y Diwc. Noson Agoriadol Tafwyl 2013: Maffia ac Y Bromas yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00am am Langyndeyrn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Prif ddigwyddiad Tafwyl yng Nghastell Caerdydd.

**Llun, 17 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol. Noson yng nghwmni'r nofelydd a'r bardd, Catrin Dafydd, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te Pen Tymor a Chyfarfod Blynyddol, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc. Helfa Drysor Tafwyl. Cyfarfod wrth ddrysau Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar yr Ais am 6.30pm.

**Sadwrn, 22 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Shelter Cymru.

**Mercher, 3 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Haf.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# CYNGERDD DATHLU DEG CÔR CF1



Mae gan un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru flwyddyn gyffroes o'u blaenau, yn dathlu carreg filltir gerddorol hynod - ei dengmlwyddiant.

O'i gwreiddiau fel Côr Aelwyd lwyddiannus nôl yn 2002, mae côr CF1 bellach wedi datblygu i mewn i un o gorau cymysg mwyaf deinamig Cymru. Bydd cyngerdd mawreddog yn cael ei chynnal ar nos Sadwrn, Ebrill 27ain yn Eglwys St. German's i ddathlu'r achlysur, a hynny yng nghwmni'r Sinfonietta Brydeinig a gwesteion arbennig.

Ymhlith uchafbwyntiau'r côr dros y ddegawd ddiwethaf oedd y fraint o gael canu yng nghyngerdd agoriadol Canolfan Mileniwm Cymru a pherfformio'r "Carmina Burana" gan Carl Orff yn Neuadd Dewi Sant, mewn cydweithrediad â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, fe gyrhaeddodd CF1 y rownd derfynol yng nghategori'r corau Oedolion yng nghystadleuaeth "BBC Choir of the Year" yn 2010.

Bydd repertoire y gyngerdd dathlu yn cynnwys rhai o ffefrynnau'r côr dros y blynyddoedd, yn ogystal â gweithiau corawl o bob cwr o'r byd, gan gynnwys "Requiem" eu harweinydd, Eilir Owen Griffiths, a fydd yn cynnwys symudiadau ychwanegol yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

Arweinydd y noson fydd y Newyddiadurwr a'r Darlledwr, Garry Owen, ac ymhlith y gwesteion arbennig fydd y tenor Wyn Davies, a oedd unwaith yn aelod o'r côr. Bellach, mae oddeutu 60 o bobl yn aelodau, a'r rheiny yn deillio o bob cwr o Gymru. Wrth gwrs mae sawl aelod wedi mynd a dod dros y blynyddoedd, ac er mwyn gwneud y gyngerdd hyd yn oed yn fwy arbennig, gwahoddir holl gyn-aelodau'r côr i ddychwelyd i ddathlu, trwy gyd-ganu dwy o hoff ganeuon y côr.

Llongyfarchiadau mawr i'r Côr.

# Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd



Ar Ddydd Gŵyl Dewi, merched Salem roddodd groeso eleni i'r oedfa liwgar hon a nhw fu'n cymryd rhan ynghyd â merched o'r Crwys, Ebeneser a'r Tabernacl. Elsbeth Edwards fu'n annerch ar thema'r diwrnod, *Bûm yn ddieithr a rhoesoch groeso i mi*. Merched o Ffrainc baratôdd y gwasanaeth ar bwnc llosg cyfoes, sef mewn-fudwyr a sut mae ymateb iddyn nhw.

Roedd angen gwryw i gymryd rhan y brenin yn un o'r darlleniadau a Dafydd Griffiths fentrodd i blith y merched. Diolch hefyd iddo fe am y llun o Eleri, Mair, Meri, Carys, Eirlys ac Elsbeth.

# CHWARAEON

## Clwb Cymric

Roedd mis Mawrth yn fis cymysg i dîm cyntaf Clwb Cymric, gan guro Graig 7-0 ar ddechrau'r mis, Osian Pritchard yn arwain y ffordd gyda thair gôl. Ond wedyn colli 2-1 bu'r hanes yn Rhydfelin ar ddiwedd y mis, prawf na fydd unrhyw gemau hawdd o nawr tan ddiwedd y tymor wrth i'r clwb frwydro am y bencampwriaeth.

Yn y cyfamser, mae'r ail dîm yn dal yn ddiguro yn y Gynghrair wrth fynd i mewn i fis Ebrill - camp anhygoel o ystyried fod angen iddynt golli chwaraewyr i'r tîm cyntaf yn aml ar fyr rybudd. Cafwyd tair gêm ym mis Mawrth - gêm gyfartal yn erbyn Yr Eglwys Wen, buddugoliaeth 2-1 yn erbyn Tongwynlais, ond yr uchafbwynt oedd buddugoliaeth 3-2 yn erbyn y Tyllgoed, a hynny ar ôl bod yn colli 2-0 wedi ugain munud o'r gêm. Cafwyd gôl gan Dan Gwyn Hughes a dwy gan Rhodri "Vince" Williams sydd newydd ail-arwyddo o glwb Llansannan yn y gogledd - ail gôl Rhodri'n dod yn y funud ola'n cwblhau gêm gampus ac yn tanlinellu unwaith eto'r ysbryd sydd yn y tîm eleni.

Bydd diwrnod a noson arbennig iawn ar ddydd Sadwrn 18 Mai, wrth i'r Clwb ddathlu diwedd y tymor. Yn y prynhawn ar gae Cwrt-yr-Ala yn Nhreláí bydd gemau rhwng y timau presennol, gan gynnwys CIC y tîm dan 18, a hefyd dîm dethol "Cymric Old Boys" fydd yn cael ei reoli gan gyn-reolwr y tîm cyntaf, Carl Roberts. Wedyn, yn yr hwyr, bydd noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes a Chris Coleman yng ngwesty'r Park Plaza yng Nghaerdydd (gyda thocynnau'n costio £30). Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y gemau yn y p'nawn, neu ddod i'r dathliad yn y nos, cysylltwch â'r clwb drwy e-bostio clwbcymric@hotmail.com neu drwy ffonio Rhodri Charles ar 07966 045275.

## Cit newydd i Garfan Dan 13 CRICC




Diolch i haelioni Andrew Cooksley a'i gwmni ACT derbyniodd carfan dan 13 CRICC git llawn, newydd sbon yn ddiweddar. Dangosir llun y garfan wedi i Jonathan Davies gyflwyno'r cit i'r chwaraewyr cyn gêm yn erbyn Pentyrch. Yr oedolion yn y llun o'r chwith i'r dde yw Richard Williams (hyfforddwr); Andrew Cooksley (ACT); Mark Davies (hyfforddwr) a Jonathan Davies

Mae'r garfan yn edrych am chwaraewyr newydd ar gyfer tymor 2013-14. Felly os gwyddoch am rywun sydd ym mlwyddyn 9 ym mis Medi, yn ddisgyblion Glantaf, Plasmawr neu unrhyw ysgol gyfun Gymraeg arall neu sy'n medru siarad Cymraeg, yna byddai CRICC yn hapus iawn ei groesawu i ymuno.